

GAEAF CALED DDECHRAU 1947

(gyda diolch i Aelwyn Gomer Roberts, gynt o Cyplau, Abergeirw, a mab i'r awdures)

Blwyddyn rhyfedd oedd 1947, gyda'i heira a'i hoerni deifiol o Ionawr i ganol Mawrth, a'i haf sych poeth yn dilyn. Gorffennaf ac Awst yn grasboeth a'r sychder yn dal ac yn cyrraedd ei eithafbwynt ddiwedd mis Hydref. Calan-gaeaf ffeind ac ychydig o flas oerni ac eira drachefn ddiwedd Tachwedd a dechrau Rhagfyr – digon i atgoffa dyn am fisoedd cyntaf y flwyddyn.

Ond, o ran hynny blwyddyn od oedd ei chwaer 1946 'y flwyddyn heb haf', o leiaf heb ei wres, pan grynhodd yr haul holl anterth ei nerth ac a'i gwariodd mewn un wythnos eirias tua dechrau Gorffennaf ac a giliodd o'n golwg tu ol i'r cymylau fel nas gwelwyd fawr o hono wedyn hyd ddiwedd Medi. Blwyddyn bur debyg i flwyddyn y tair caib 1777 pan gwynai'r bardd na chawsid --

“Eleni ----- hin
Mai hafaidd na Mehefin
Ni ffynnodd ein Gorffennaf
Pob dyffrun a glyn yn glaf
Awst gwlyb wair mewn ystod
A Medi heb fedd i fod”.

[Y bardd dan sylw oedd Walter Davies (Gwallter Mechain) ac at haf di-haul 1816 yn dilyn ffrwydriad Tambore y cyfeiriai yn y gerdd. Y llinell anghyflawn oedd “Leni ni bu hardd-gu hin..”
Gol.]

Nid oedd pethau mor ddrwg a hynny yn haf 1946 chwaith drwy drugaredd. Fe gafwyd medi ei fod llawer o'n cynhaeaf wedi ei golli ac at ei gilydd cafodd ffermwyr mynydd-dir Cymru tua hanner y swm arferol o wair i'w beudai, yn llwyd ei gynhaeaf ac yn ddiflas ddigon. Er fod porthiant yn brin yr oedd cyflawnder o hyder y dilynid y fath haf gwlyb â gaeaf tyner ac agored, oblegid oni ddywedai'r hen goelion tywydd i gyd na ddilynid haf gwlyb a gaeaf caled.

Ar ysguboriau hanner llawn a helmau gwair hanner gwâg yr esgorodd caledi wyneb blwyddyn 1947. Oerodd yr hin yn Ionor [sic] (tua'r 18fed) ond profodd dwyrain a dê Lloegr fin yr adwyth tua pythefnos cyn iddo gyrraedd atom ni. Adroddid am eira gwastad a thrwchys yng nghyffiniau Gwrexham a Llangollen tua diwedd Ionor a chawsom ninnau gnwd o hono tua'r 29ain. Fodd bynnag, nos Wener Chwef 7 y daeth y storm eira fawr gyntaf ar ei gwarthaf a chaewyd y ffyrdd i fyny.

Dim post am rai dyddiau a'r buses wythnosol yn methu rhedeg. Synnem wrth edrych o ben ein bryniau weled dyffrynnoedd y Ganllwyd a Dolgellau yn las ac yn ddi-eira a ninnau, druain, yn ymboenus yn ceisio ymlwybro trwy'r Llywchfeydd, troesai siwrnai o gerdded yn sionc mewn chwarter awr yn waith awr a lafur caled. Soniai'r hen bobl am aeaf 1895, ni chofiai rhai ifanc mohono wrth gwrs, ond trwy glywed am ei anghysuron a'i golledion gan y rhai hyn yr oedd ganddynt amgyffred gweddol am y gaeaf enbyd hwnnw. Cyfeirid ato fel y 'gaeaf yr aeth llwyth gwagen o grwyn defaid o Frynllin fawr i'r tanwrs i Ddolgellau. Cytunai'r hen ac ifanc fod rhagolygon yn ddrwg, ac yr oedd pawb yn teimlo o dan ei groen megis nad oedd yr heth yn debyg o basio heibio yn fuan. Heblaw hynny, adroddai'r papurau Seisnig am eira ac oerni cyffredinol trwy holl ogledd Iwrop ac fod capan rhew y pegwn wedi llaesu ei odrau yn is nac a welwyd o fewn côf Chwythai'r dwyreiniwynt yn gyson a chreulon, tyrrai'r defaid i'r cysgodion a rhai yn marw o'r oerni, gorweddant yn finteoedd y nos er cynhesu ei gilydd. Ynghysgod gwynt y saif yr eira fwyaf hefyd, ysywaeth, ac yno y bydd y bugeiliaid yn ceisio eu defaid claddedig, a'r cwn defaid yn gogwydd clust ac yn crafu wyneb yr eira uwch eu pennau.

Pnawn Mawrth, Chwefror 18 y torrodd gwyr y Cyngor Sir trwodd at ysgol Rhydygorlan (tua 30 o honynt) a chymerodd iddynt drwy'r dydd drannoeth i gyrraedd croesffordd 'Nyrs Ffawydd' gan adael ffordd Ffridd y Fedwen fel 'cutting' hir o'u hol. Torri drwodd i Gwmhesgen ddydd Gwener Chwef 21; Chwef 25ain y cyfarfu criw Dolgellau a chriw Trawsfynydd a'u gilydd wrth gapel Abergeirw. Trwch yr eira yn y lle dyfnaf yn nhro Nyrs Ffawydd yn 5tr 9mod ac ar y rhiw tu-ucha i groesffordd y capel yn 6 i 7 troedfedd. Ddydd Sul Chwef 23 y bu gwasanaeth yn y capel am y tro cyntaf ers Ion 26ain. Fin nos nos Fawrth Chwef 25, eira a lluwch drachefn, o'r de-ddwyrain y tro hwn. Tewychodd yr eira yn fawr ar y ffriddoedd a'n llechweddau yn enwedig yng nghil y gwynt. Ail gaewyd y ffyrdd drachefn ond nid mor ddrwg a'r llywch cyntaf. Cariai pawb rhyw gymaint o wair i'r defaid, er nad oedd gan neb wair i'w hebgor. Yr oerni yn tyneru ychydig y dyddiau nesaf (Chwef27 – Mawrth 4). Cododd gobeithion ffermwyr pan addawai'r papurau newyddion fod meirioli yn dod.

Chwalwyd ein gobeithion i'r llawr pan gyfododd storm eira y prynhawn hwnnw Mawrth 4ydd, parhaodd drwy'r nos a thrwy'r dydd drannoeth, chwythai'r gwynt yn gryf o'r dwyrain a'r lluwch mor dew nes methu gweld fawr ymhellach na hanner canllath (llai o lawer ar brydiau) trwy'r dydd a'r eira man a'r rhewynt yn fferu y gwaed. Amhosib oedd gollwng yr anifeiliaid allan i'r dŵr, ac nid oedd dŵr i'w gael ychwaith. Llifai'r lluwch i mewn trwy bob rhigol mewn mur a drws, yr oedd cynmaint o eira o'r tu fewn i ambell adeilad drafftio ag oedd yr ochor allan bron. Diwrnod ofnadwy oedd, cofiais i mi weld darlun yng Nghymru'r Plant pan oeddwn blentyn, llun dyn yng Ngogledd America yn brwydro yn ei gwman drwy ystorm o eira i roi bwyd i'r gwartheg. Gosodasai raff o ddrws ei gaban i'r beudy i'w arwain rhag iddo golli'r ffordd a marw yn yr eira.

Os oedd y llywchfeydd yn fawr cynt yr oeddynt yn llawer mwy ar ôl y noson a'r diwrnod yma. Rhyfedd oedd yr olwg gawsom fore drannoeth. Chwythwyd yr eira oddiar y gwastadedd a llethrau wyneb y gwynt a chrynhodd yn y pantiau a llethrau cysgod gwynt. Gwelwyd llethrau carregog yn llechweddau llyfnion, difaen a di-dwmpath. Medrem amgyffred am y tro cyntaf erioed efallai, atdyniad mynydd dir Switzerland i'r rhai a gar y 'tobogan' a'r 'skis'. Yr oedd y colledion mewn defaid yn fawr, yr oedd eu cyflwr yn druenus ddigon eisioes. Claddwyd llawer dan yr eira gweddill o'r rhai hynny a achubwyd. Gyrwyd rhai eraill o flaen yr ystorm am ffilltiroedd dros gloddiau eu cynhefin. Tarawodd rhai ohonynt yn lwcus, cawsant gysgod a noddfa a thamaid i'w fwyta, a'r lleill, pwy wyr eu helynt ond gwybod eu colli? Disgynnodd peth eira eto ddydd Gwener Mawrth 7ed a chyfododd storm o eira a lluwch drachefn Nos Sul Maw 9fed, ond ni pharhaodd fwy nag ychydig oriau yma, mewn rhai ardaloedd parhaodd yn llawer hwy. Tua'r 10fed o Fawrth dechreuodd feirioli – y meirioli mawr a ddilynodd yr eira mawr. Tywynnasai yr haul yn gynnes yn ystod oriau'r prynhawn ers dyddiau ac yr oedd yr argoelion yn fwy siriol.

Cafwyd ychydig wlaw ar y 10 ar 11 a'r 12 a nos Fercher {12th} glawiodd yn weddol drwm drwy'r nos. Parhai i lawio drwy'r bore dydd Iau hefyd. Yr oedd golwg rhyfedd ar y ffosydd a'r nentydd fore Iau (13th) cronfeydd o ddwr ymhobman – tu ol i argaeau o eira – yr eira yn melynau a meddalhau fel y llyncai ddwr. Yr oedd llond gwelyau y nentydd o eira yn rhwystro rhediad y dwr ymaith ar hyd hen sianelau. Disgynnai'r glaw yn gyson bnawn Iau hefyd. Aeth y cronfeydd yn rhy drwm i'r argaeau eira. Torrai'r naill gan arllwyso i'r llall a bu llif anferth. Cyn iddi nosi, carthiodd y llif welyau'r nentydd yn lân, rhwygodd y rhew oedd tua throedfedd o drwch, oddiar wyneb y llynnoedd a chariodd ef ymaith yn llwybr gan adael ambell dalp yn y cilfachau i beri inni ryfeddu at ei drwch.

Chwalwyd pentannau a chloddiau ddi-wyddai fod ar ffordd y llif a chlodwyd rheselau a phont-brennau ymaith fel pabwyr ar ei frig. (Dymchwelwyd pont garreg Rhydygorlan a phont garreg Cae-Bach, Brynllin gan y llif hwn). Symudwyd rhai meini o faintioli anhygoel a chredaf fod llawer o bysgod wedi eu lladd yn y rhannau chwyrnaf o'r nentydd. Glawog ac oer iawn fu'r tywydd ar ôl y llif, a darfyddodd y llywchfeydd eira yn anhygoel o fuan, os cofiaf yn iawn yr oedd y rhai

mwyaf wedi llwyr ddarfod cyn diwedd Ebrill, os nad oedd ambell smotyn gwyn ar y mynyddoedd. Ychydig wythnosau ynghynt meddyliem na ddiffasant nes deuai haul Mehefin i'w toddi!

Rhywbeth yn debyg i'n profiad ninnau fu profiad mynyddwyr eraill Cymru, cymoedd Dinas Mawddwy, Penantlliw, Waen y Bala, Trawsfynydd, Ffestiniog etc. Yn ôl yr hanes yr oedd yn waeth mewn llawer ardal. Heblaw colli defaid, collwyd llawer o wartheg mewn rhai ardaloedd o herwydd prinder porthiant a deuai son fod rhai ffermwyr yn gorfod saethu eu gwartheg yn hytrach nag edrych arnynt yn llwgu. Ni chlywais fod dim gwartheg wedi marw yn ein cwm ni ond bu amryw farw yng Nghwm Blaenglyn yn ôl a glywais.

Collasom ninnau yng Nghwm 'Ralltlwyd' lawer iawn o ddefaid. A chyfrif y colledion i gyd o Feddcoedwr a Hafod fraith yng ngwaelod y cwm i Dwrmaen ac Alltlwyd yn y top collwyd tua dwy fil i ddau gant ar hugain ac yr oedd nifer yr wyn y llwyddwyd i'w magu yn llai o tua cant a'r hugain (2100). Wrth rodi y ffigyrau hyn, bum yn ofalus rhag bod yn fyrbwyll ac mae fy ffigyrau os yr un yn tueddu i fod yn ochelgar.

Yn rhyfedd collwyd llawer mwy o ddefaid yn ystod y meiriol ac am tua pythefnos ar ei ol nac yn ystod yr heth. Y glaw oer oedd yn gorffen lladd y gweiniaid a'r bwyd glas gwlyb yn ormod o newid ar ol gwair sych ac eithin a grug. Clwy'r eira hefyd yn taro'r mamogiaid cyfebrion. Fel y mae newyn yn dofi creadur, Trôdd yr hêth ddefaid gwylltion y mynydd yn ddefaid llyweth, dysgent fwyta brawd o fwcad ymhên chwarter awr. Bu llawer ohonynt yn cael eu ffidio i mewn yn ystod rhan olaf y gwanwyn ac wedi eu troi allan, gwthient i fewn i'r beudai yn eofn. Erbyn hyn maent mor wyllt ac erioed ond pan fydd y gwynt yn troi i'r dwyrain a'r eira yn bygwth, credaf yn siwr fy mod wedi gweld mwy nag un hen ddafad yn troi ei llygaid at ddrws y ty gwair ac edrych yn ymbilgar arnaf.

Hanesydd ar frys

16 Rhag 1947.

[Trawsgrifiwyd gan Tom Jones, Golan]